



Lynne Donovan
Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
donovl@caerphilly.gov.uk

6 Rhagfyr 2019

Annwyl Lynne

Recriwtio i swydd Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae'r llythyr hwn yn cadarnhau fy e-bost dyddiedig 24 Tachwedd bod yr hyn a gyflwynwyd gennych ynghylch cynnig y Cyngor i leihau cyflog swydd y Prif Weithredwr, ei ystyried gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Mewn perthynas â swyddogaeth y Panel yn ymwneud â chyflogau Penaethiaid Gwasanaethau Cyflogedig a phrif swyddogion, mae'r cylch gwaith a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel wneud y canlynol:

- a) Cymeradwyo'r cynnig
- b) Mynegi pryderon am y cynnig
- c) Argymell amrywiad i'r cynnig

Ar ôl edrych ar yr hyn a gyflwynodd eich awdurdod, penderfyniad y Panel yw cymeradwyo'r cynnig fel y'i cyflwynwyd i recriwtio Prif Weithredwr i'ch awdurdod ar gyflog newydd is o £140,000.

Yn gywir

John Bader
Cadeirydd